

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 28 Ebrill 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, D. Williams, Meirion Jones, A. Thomas, A. Williams, J. Evans (Cyngorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: Mervyn Jones, E. Parry, B. Jones,

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Cyfrifon mis Ebrill 2015

3.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

3.2 Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir i symud y biniau ailgylchu o'r Maes Parcio.

3.3 Anfoneb uchel wedi'i dderbyn gan Scottish Power am ddefnydd trydan y Neuadd Snwcer. Clerc I yrru'r manylion ymlaen i C. Jones. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio i drefnu cyfarfod hefor'r clwb snwcer i drafod dyfodol y clwb oherwydd y costau trydan am fod y defnydd ddim yn cael ei reoli.

4. Materion y Cyngor Sir

4.1 Nodwyd bod y Cyngor Sir ar hyn o bryd yn ymgynghori ar 'brecwast am ddim' mewn ysgolion

4.2 A. Mummery yn nodi ei fod wedi derbyn copi o gais cynllunio yn Lôn Dyfnia am 17 annedd. Nodwyd fod cais hanesyddol wedi bod hefor'r tir yma gydag amod fod gwaith yn cael ei wneud ar y gornel. Cyngor Bro hefyd yn dangos pryder am y nifer o dai fydd yn cael ei adeiladu ar y plot.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 31 Mawrth 2015

5.1 J. Roberts yn cynnig, D. Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

5.2 H. Huws yn nodi fod cwyn wedi'i dderbyn am nid yw'r cofnodion mewn dwy iaith ar yr hysbysfwrdd. Cytunwyd y dylai'r cofnodion cael ei baratoi mewn dwy iaith.

6. Materion yn codi

6.1 Tŷ Mawr - A. Mummery wedi rhoi ei bryder at staff Rhun Ap Iorwerth. Dim diweddariad pellach

6.2 Twr Marcwis - Clerc wedi siarad gydag asiant Jones Peckover a dim diweddariad pendant i'w gael ganddynt.

Cytunwyd I yrru llythyr iddynt i ofyn am ymateb swyddogol neu wahodd iddynt ddod i gyfarfod y Cyngor Bro. Nodwyd fod trigolion yn cwyno am gyflwr y safle a'i bod yn awyddus i sefydlu trefniant i gynnal a chadw'r safle.

6.3 Plac ar dy Kyffin Williams - J. Evans yn nodi fod plac I Kyffin Williams am gael ei osod ar Tan y Graig, Llangefni

6.4 Paentio'r Neuadd Goffa - Diolchwyd I E. Parry am weithredu, a nodwyd fod y gwaith heb ei gwblhau hyd yn hyn.

6.5 Meinciau - Andre Le Cras wedi cychwyn gosod y fainc newydd.

6.6 Grid Cenedlaethol - Nodwyd y dylid disgwyl i weld pwy fydd yr Aelod Seneddol ar ôl yr etholiad cyffredinol cyn edrych i ymgynghori gyda nhw.

6.7 Bwrdd Iechyd - A. Mummery am ofyn I Linda West am ymateb i lythyr y Cyngor Bro

6.8 Llwybr beicio - Clerc i yrru manylion o waith sydd ei angen i'r Cyngor Sir

6.9 Trefniadau Nadolig - Angen goriad gan Andre Le Cras I weld beth yw'r cyflenwad pŵer i'r cloc

6.10 The pension regulator - clerc i gael gwybodaeth bellach gan Un Llais Cymru I weld os oes effaith ar y Cyngor Bro wedi'r newidiadau

6.11 Cysgodfa Bws - A. Jones am gael prisiau gan dri chwmni gwahanol i ail baentio'r Gysgodfa

7. Tenders am waith i'r Maes Parcio

7.1 Prisiau wedi'i derbyn gan Hogans, W. E. Jones ac R. G. Hire am y gwaith. A. Mummery yn cynnig, G. Parry yn eilio i ofyn I R. G. Hire i weithredu gan ei bod am gynnwys gwaith ychwanegol yn y pris.

8. Enwebu dau Aelod ar ran y Cyngor Bro i'r Pwyllgor Safonau

8.1 Cytunwyd I enwebu J. Roberts ar ran y Cyngor Bro Llanfairpwll

9. Diweddariad ymgyrch y Neuadd Goffa

9.1 Nodwyd ar hyn o bryd mae'r ymgyrch yn edrych i dderbyn grant i gyfarfod a chostau byrdymor. G. C. Jones wedi dadansoddi'r holiaduron trigolion Llanfair. Rhai o holiaduron y defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr wedi'i derbyn, dal i ddisgwyl ymateb gan rai. Diolchodd A. Mummery ar ran y Cyngor Bro i G. C. Jones am ei waith. Nodwyd dyddiad y Cyfarfod Agored nesaf fydd 02 Mehefin 2015.

10. Ceisiadau Cynllunio

10.1 31C47E/ENF - Cais ôl-weithredol i gadw modurdy dwbl yn Nhrefair, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll - Dim sylw

10.2 31C423 - Cais llawn i ddymchwel yr estyniad yn y cefn, ynghyd ag addasu ac ehangu yn 2 Tyddyn Pwyth, Llanfairpwll - Dim sylw

10.3 Cais llawn i ddymchwel sied bresennol ynghyd a chodi bloc stabl newydd yn Siglan Fach, Lon Dyfnia, Llanfairpwll - Dim sylw

11. Gohebiaeth

11.1 Un Llais Cymru - Llyfryn gwybodaeth - Derbyn y wybodaeth

12. Unrhyw Fater Arall

12.1 J. Roberts yn nodi ar ran E. Parry yn ei absenoldeb, bod E. Parry am weithredu ar goeden yn y Fynwent sydd yn tyfu drwy'r tarmac

12.2 G. Parry yn nodi bod camddefnydd yn cael ei wneud o'r bin ailgylchu yn y Fynwent. Angen rhoi arwydd arno yn gofyn i bobl i'w ddefnyddio'n gywir.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Mai 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd (Cadeirydd)Dyddiad